



Ms Lynne Neagle AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd Caerdydd
CF99 1NA

Drwy'r post ac e-bost: lynne.neagle@assembly.wales

6th Mehefin 2019

Annwyl Lynne

Rydym yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar statws Bagloriaeth Cymru.

Rydym yn falch bod ei ganfyddiadau yn cydnabod ein gwaith ar Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ac y rhoddwyd ystyriaeth i'n gwaith ymchwil annibynnol¹, a gyhoeddwyd y llynedd ac a ddyfynnwyd yn yr adroddiad, ac y cydnabuwyd y camau rydym wedi'u cymryd ers hynny.

Mae gwaith ein Grŵp Dylunio a'n Grŵp Ymarferwyr², a sefydlwyd er mwyn helpu i ddatblygu ac ystyried cynigion ar gyfer newidiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau, yn mynd rhagddo'n frwd. Mae'r ddau grŵp wedi awgrymu newidiadau er mwyn gwella ac atgyfnerthu'r model presennol ymhellach. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid, gan gynnwys cyflogwyr a sefydliadau addysg Uwch (SAU), er mwyn adolygu a mireinio'r cynigion. Bydd y gwaith hwn yn arwain at ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau arfaethedig i'r Dystysgrif Her Sgiliau ddechrau flwyddyn nesaf.

Isod nodir ein hymateb i argymhellion y pwyllgor mewn perthynas â'n gwaith (argymhellion 2, 4 a 7).

¹ <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/welsh-bacc-report-2018/>

² Mae'r Grŵp Dylunio yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CBAC, y Consortia Addysg Rhanbarthol, Colegau Cymru, Estyn, yn ogystal ag arbenigwyr cymwysterau ac asesu. Mae'r Grŵp Ymarferwyr yn cynnwys athrawon a Chydgyssylltwyr y Dystysgrif Her Sgiliau/Bagloriaeth Cymru

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Argymhelliad 2

Bod Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yn cydweithio i ddarparu ymgyrch codi ymwybyddiaeth â ffocws ar gyfer busnesau a sefydliadau addysg uwch. Dylai'r ymgyrch hon geisio cynyddu dealltwriaeth o'r sgiliau a ddatblygir o dan Fagloriaeth Cymru ac annog mwy o gydweithredu gyda'r sectorau hynny wrth ei dylunio a'i darparu, er mwyn sicrhau eu hymgysylltiad a'u cefnogaeth.

Argymhellodd yr adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gennym³ y dylem feithrin gwell dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru, y Dystysgrif Her Sgiliau a'r sgiliau y mae'n eu datblygu. Mewn ymateb, rydym wedi bod yn cynnal ymgyrch wybodaeth, gan gynnwys anfon taflenni at ddysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid⁴. Cynhyrchwyd fideo byr wedi'i animeiddio⁵ gennym er mwyn egluro Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau. Ar ein gwefan, rydym wedi cyhoeddi straeon personol gan gyn-fyfyrwyr yn trafod sut y gwnaeth y Dystysgrif Her Sgiliau eu helpu i gael lle mewn prifysgol a sut y gwnaeth yr hyn a ddysgwyd ganddynt eu helpu ar ôl iddynt gyrraedd, yn ogystal â thystiolaeth gan brifysgolion a grwpiau cymunedol yn egluro pam eu bod yn gwerthfawrogi'r Dystysgrif Her Sgiliau⁶. Cynhaliwyd ymgyrch radio gennym ar orsafoedd lleol a chenedlaethol ac ar Spotify er mwyn gwella ymwybyddiaeth o Fagloriaeth Cymru ac egluro ble i gael rhagor o wybodaeth amdani.

Rydym wedi ymgynghori â chyflogwyr er mwyn trafod pa sgiliau y mae'n bwysig i bobl ifanc eu meithrin, yn eu barn nhw. Fel rhan o un o'n gweithgareddau ymgysylltu diweddaraf, gwnaethom gyfarfod ag aelodau'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD), a oedd yn awyddus i rannu eu barn ac i ymwneud â'n gwaith. Rydym o'r farn bod ymgysylltu â chyrrff cynrychioliadol yn cynnig llwybr pwysig i mewn i sefydliadau mwy. Mae gweithio gyda busnesau bach a chanolig a Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) yr un mor bwysig i ni er mwyn i ni gael barn amrywiaeth o gyflogwyr wrth i ni ystyried newidiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau. Rydym yn awyddus i ymgymryd â gwaith ymgysylltu pellach er mwyn annog mwy o gydweithredu â chyflogwyr wrth ddylunio'r cymhwyster yn y dyfodol ac er mwyn ennyn cefnogaeth iddo.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a CBAC i drefnu ymgyrch gyfathrebu ar y cyd a fydd yn cynnwys ymdrechion i dargedu busnesau a phrifysgolion. Gan gydweithio, byddwn yn hwyluso dull gweithredu cydgysylltiedig a phenodol a byddwn hefyd yn atgyfnerthu'r gwaith sy'n mynd rhagddo gennym eisoes i godi ymwybyddiaeth a sicrhau ymgysylltiad yn y sectorau hyn.

Argymhelliad 4

Bod Cymwysterau Cymru yn ystyried ar unwaith a yw un Swyddog Cyswllt Addysg Uwch yn ddigonol i sefydlu darlun o'r dirwedd addysg uwch mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohoni ar draws y sector. Dylid ailddyrrannu adnoddau yn

³ <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/welsh-bacc-report-2018/>

⁴ <https://www.qualificationswales.org/media/3391/beth-yw-bagloriaeth-cymru.pdf>

⁵ <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/bagloriaeth-cymru/>

⁶ <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/bagloriaeth-cymru/case-studies/>

ôl yr angen i roi mwy o ffocws ar y maes hwn yn ogystal â darparu mwy o gynnydd, gan gynnwys penodi Swyddog(ion) Cyswllt Addysg Uwch ychwanegol os bydd angen.

Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y pwyllgor o'r gwaith a wnawn er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth ac i wella dealltwriaeth o'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yn y sector addysg uwch, gan gynnwys penodi Swyddog Ymgysylltu ag Addysg Uwch penodedig sy'n ymqysylltu â phrifysgolion ledled y DU.

Ers dechrau yn ei swydd ym mis Medi 2018, mae'r Swyddog Ymgysylltu ag Addysg Uwch wedi meithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol â llawer o brifysgolion. Hyd yn hyn, mae wedi ymgysylltu â'r prifysgolion sy'n derbyn y nifer uchaf o geisiadau gan fyfyrwyr o Gymru, yn ogystal â phrifysgolion Grŵp Russell, er mwyn rhoi cyngor iddynt a'u cefnogi mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru er mwyn helpu i sicrhau bod eu cyhoeddiadau, a'u gweithdrefnau derbyn yn seiliedig ar wybodaeth lawn a chywir.

Drwy waith y Swyddog Ymgysylltu ag Addysg Uwch â phrifysgolion ac UCAS, rydym yn creu darlun cynhwysfawr o'r tirlun addysg uwch, ac mae'r adborth sy'n dod i law yn galonogol, gan ddangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o'r Dystysgrif Her Sgiliau, a'i gwerth i ddysgwyr, yn ogystal â hyder ynddi.

Yn ogystal â gwella dealltwriaeth mewn prifysgolion, mae'r Swyddog Ymgysylltu ag Addysg Uwch yn ein helpu i gasglu gwybodaeth ac adborth er mwyn rhoi gwybodaeth a chynngor cywir ac ymarferol i golegau a lleoliadau chweched dosbarth am farn a safbwyntiau prifysgolion mewn perthynas â'r Dystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau a materion eraill sy'n ymwneud yn benodol â Chymru.

Mae'r argymhelliad hwn yn gofyn i ni ystyried recriwtio Swyddog Ymgysylltu ag Addysg Uwch arall. O ystyried bod y swydd hon yn swydd gymharol newydd, rydym o'r farn ei bod yn rhy fuan i ni ystyried penodi unigolyn ychwanegol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â'r sector addysg uwch a sicrhau cydberthnasau cryf â'r sector hwnnw, felly byddwn yn adolygu'r agwedd hon ar ein gwaith yn rheolaidd ac yn gwneud unrhyw newidiadau fel y bo angen.

Argymhelliad 7


Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod iechydd meddwl a lles dysgwyr yn flaenllaw yn yr holl ystyriaethau a'r gweithgarwch y mae'n ymgymryd â hwy mewn perthynas â dyfodol Bagloriaeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ymgysylltu â Cymwysterau Cymru i sicrhau bod iechydd meddwl a lles dysgwyr wrth wraidd gwaith ei Grŵp Dylunio.

Wrth i ni ddiwygio'r Dystysgrif Her Sgiliau, rydym yn gweithio gydag aelodau o'r Grŵp Dylunio a'r Grŵp Ymarferwyr, a rhanddeiliaid eraill, i ystyried y materion a godwyd gan ddysgwyr ac athrawon yn yr adolygiad annibynnol o ran hydrinedd y cymhwyster. Mae hyn yn cynnwys ystyried iechydd meddwl a lles dysgwyr.

Un o gryfderau mawr y Dystysgrif Her Sgiliau yw ei bod yn caniatáu i ddysgwyr ganolbwyntio ar bynciau sydd o ddiddordeb a pherthnasedd uniongyrchol iddynt a'u dyfodol. Caiff myfyrwyr eu hasesu drwy gydol y cwrs, sy'n osgoi rhywfaint o'r pwysau sy'n gysylltiedig ag arholiadau a gynhelir ar ddiwedd cyrsiau. Mae'r sgiliau y byddant yn eu meithrin yn eu helpu i fagu hyder a gwydnwch a fydd yn helpu i'w paratoi i astudio ac i weithio yn y dyfodol. Wrth ystyried unrhyw welliannau i'r cymhwyster, byddwn yn datblygu ac yn gwella'r nodweddion cadarnhaol hyn.

Rydym yn cefnogi diddordeb y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y maes hwn ac rydym yn ymrwymedig i gyfrannu at esblygu'r cymhwyster er mwyn sicrhau'r budd gorau posibl i'n pobl ifanc.

Yn gywir



Ann Evans
Cadeirydd



Philip Blaker
Prif Weithredwr

cc at aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg